*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1376 (Cy. 242)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU BWYD, CYMRU GARDDWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Hydref 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *25 Hydref 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft o'r offeryn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddo.

Yn unol â pharagraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch diwygio Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) a diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**3**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**4**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn o ran diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**5**), Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(**6**), Rheoliadau

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) O.S. 2019/732 (Cy. 137).
(**3**) O.S. 2019/XXX (Cy. XXX).
(**4**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.
(**5**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/732 (Cy. 137). Mae'r diwygiadau hyn i fod i ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

Cig Dofednod (Cymru) 2011([7]), Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(**6**) O.S. 2010/1671 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/463 (Cy. 111) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137). Mae'r diwygiadau hyn i fod i ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**7**) O.S. 2011/1719 (Cy. 195), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320). Mae O.S. 2011/1719 (Cy. 195) wedi ei ddiwygio hefyd gan O.S. 2019/463 (Cy. 111) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137) a daw'r diwygiadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.